| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Medi 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Archwiliad Mewnol Dilynol - Ysgol Uwchradd Gatholig Bendigaid Edward Jones** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am waith dilynol Archwilio Mewnol yn Ysgol Bendigaid Edward Jones yn dilyn ei adroddiad cychwynnol ym mis Hydref 2013 ac adroddiad dilynol cyntaf ym mis Mehefin 2014.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'n hadroddiad dilynol ar gyfer Ysgol Bendigaid Edward Jones gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i roi sicrwydd bod gwelliannau wedi eu gwneud yn yr Ysgol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad dilynol Archwiliad Mewnol.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar Ysgol Bendigaid Edward Jones ym mis Hydref 2013, a oedd, er gwaethaf rhoi sgôr sicrwydd 'canolig', yn cynnwys cynllun gweithredu gyda 13 o feysydd ar gyfer gwella. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn arbennig o bryderus y dylai'r ysgol roi sylw i'w bwysau ariannol a gofynnodd i adroddiad dilynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Roedd ein hadroddiad dilynol i'r Pwyllgor hwn ym mis Gorffennaf 2014 yn dangos cynnydd da ar y cyfan gyda'r cynllun gweithredu, ond mynegodd y Pwyllgor ei bryderon ynghylch diffyg cynllun adfer ariannol ar y cam hwnnw, gan ofyn am adroddiad dilynol pellach i'w gyfarfod ym mis Medi.

Mae'r cynllun gweithredu dilynol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yn dangos bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd pellach wrth gyflwyno gwelliannau ac wedi cytuno ar ei gynllun adfer ariannol. Fodd bynnag, mae llawer o drafodaeth ar sut y bydd yr Ysgol yn cyfarfod ei gyllideb yn 2016/17, felly mae'r Ysgol wedi cael cais i anfon cynrychiolwyr i gyfarfod y Pwyllgor i roi rhagor o wybodaeth ac i ateb cwestiynau'r Aelodau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i’r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - adroddiad gwybodaeth yn unig